GIG CYMRU NHS WALES | Staff Nyrsio Nurse Staffing

# Lefelau Gofal Cymru ar gyfer Nyrsys Ardal

Working Document

Mai 2022 (Diwygiad 6)

Disgrifyddion Cryno Nyrsio Ardal

| | |
|---|---|
| **Lefel 5** | **Gofal Argyfwng / Ar Unwaith** - Sefyllfa argyfyngus / achos brys eithriadol, risg uchel sy'n mynnu uwchgyfeirio ac ymyrraeth ar unwaith gan weithwyr / gwasanaethau proffesiynol. |
| **Lefel 4** | **Gofal Brys** - Mae cyflwr y claf yn hynod ansefydlog ac anrhagweladwy—naill ai o achos ei brif gŵyn neu o ganlyniad i waethygiad o ran ffactorau cysylltiedig eraill. Gellir ei reoli yn y gymuned. |
| **Lefel 3** | **Gofal Cymhleth** - Efallai bod gan y claf nifer o broblemau dynodedig, y mae rhai ohonynt yn ymadweithio â'i gilydd, sy'n ei gwneud yn anoddach rhagweld deilliant yr ymweliad. |
| **Lefel 2** | **Gofal dan Reolaeth** - Mae gan y claf broblem/cwyn ragweladwy sydd wedi'i phennu/diffinio'n glir. Gall fod nifer o fân amrywiadau ar sail gofal, y gellir eu rheoli'n rhwydd heb fawr o amhariad. |
| **Lefel 1** | **Gofal Arferol** - Mae gan y claf broblem/cwyn sydd wedi'i dynodi'n bendant, gydag ychydig iawn o ffactorau cymhleth eraill. |

Working Document

# Disgrifyddion Cyffredinol Nyrsio Ardal

Mae'r Disgrifyddion Cyffredinol yn rhoi gwybodaeth am nodweddion cyffredinol cleifion ar bob lefel gofal

| | |
|---|---|
| **Lefel 5**<br><br>**Gofal Argyfwng / Ar Unwaith** | • Sefyllfa argyfyngus; mae'r claf yn dioddef argyfwng ac mae angen ymdriniaeth ar unwaith<br>• Mae'r claf yn hynod wael ac mae ei gyflwr yn gwaethygu<br>• Rhoddir cymorth parhaus a di-dor hyd nes y gellir derbyn y claf i'r ysbyty, ei symud i le diogel neu ei gynorthwyo gartref |
| **Lefel 4**<br><br>**Gofal Brys** | • Mae'r claf yn hynod wael, mae angen adolygu ei gyflwr ar frys gan ei fod wedi gwaethygu neu bod problem ddifrifol arall wedi datblygu<br>• Mae angen lefel uchel o gymorth<br>• Gall hyn fod oherwydd na all y claf ofalu amdano'i hun mwyach, nad yw ei gartref yn ddiogel bellach neu bod ei waeledd wedi gwaethygu<br>• Efallai y bydd angen addasu eu cynllun triniaeth arferol ac ychwanegu ato; bydd angen rhoi mwy o gymorth a chynnal mwy o weithgarwch gofal proffesiynol i gadw'r claf yn ddiogel<br>• Rhaid gwirio'u cyflwr yn aml a chyson er mwyn dynodi ac atal dirywiad |
| **Lefel 3**<br><br>**Gofal Cymhleth** | • Mae cyflwr y claf yn gymhleth<br>• Mae ganddo nifer o broblemau hysbys, y byddant oll angen eu trin o bosib<br>• Gallai'r cyflyrau hyn ymadweithio gan ei gwneud yn anodd darogan sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar y claf<br>• Gall eu cyflwr amrywio yn ogystal â'r gofal a roddir<br>• Rhaid gwirio cyflwr y claf yn aml<br>• Efallai y bydd arnynt angen gofal gan weithwyr proffesiynol eraill |
| **Lefel 2**<br><br>**Gofal dan Reolaeth** | • Mae'r claf fel arfer yn sefydlog o gael triniaeth<br>• Efallai bod gan y claf fwy nag un problem nad yw'n gymhleth<br>• Caiff gofal nyrsio ei gynllunio ond efallai y bydd angen addasu'n dibynnu ar gyflwr y claf<br>• Bydd angen gwirio'u cyflwr yn rheolaidd a gall y gofal amrywio yn ei sgil<br>• Efallai y bydd angen cymorth gan weithwyr proffesiynol eraill |
| **Lefel 1**<br><br>**Gofal Arferol** | • Mae'r claf yn sefydlog ac yn ddigynnwrf o gael triniaeth<br>• Gofal nyrsio arferol a roddir<br>• Mae ganddo broblem/cwyn sydd wedi'i dynodi'n glir, gydag ychydig o faterion eraill<br>• Nid yw anghenion y claf yn gymhleth ac mae modd cynllunio ar eu cyfer<br>• Cynhelir adolygiadau i wirio cyflwr y claf |

Working Document

# Disgrifyddion Clinigol Nyrsio Ardal

Mae'r Disgrifiadau Clinigol yn rhoi trosolwg o'r mathau o gleifion a'r ymyriadau nyrsio sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion ar bob lefel gofal.

| | |
|---|---|
| **Lefel 5**<br><br>**Gofal Argyfwng / Ar Unwaith** | • Sefyllfa argyfyngus ble gallai fod perygl uniongyrchol i fywyd neu ddirywiad clinigol difrifol<br>• Dyma argyfwng lle na ellir gadael y claf heb gymorth clinigol<br>• Mae'r claf yn hynod wael, yn hynod ansefydlog ac yn anrhagweladwy tu hwnt<br>• Gall fod risg uniongyrchol o niwed i'r unigolyn neu eraill, wedi'i achosi gan yr unigolyn neu eraill<br>• Nid yw ymyriadau gofal a rhwydweithiau cymorth y claf yn bodloni eu cyflwr critigol presennol<br>• Bydd y claf yn cael ei dderbyn i'r ysbyty neu fan diogel oni bai bod modd cael rheolaeth ar y sefyllfa gartref neu fod mesurau cymorth ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith |
| **Lefel 4**<br><br>**Gofal Brys** | • Mae dwys angen ar y claf am ymyrraeth ragweithiol ac arsylwad manwl<br>• Cyflwr ansefydlog sy'n cyflym newid<br>• Dylid gweithredu i sefydlogi a chynnal cyflwr y claf<br>• Efallai y bydd angen uwchgyfeirio anghenion gofal y claf yn sgil ei drosglwyddo i'r ysbyty neu fan diogel<br>• Gall aros gartref gyda lefel uchel o gymorth<br>• Mae'r gwaith o ddarparu gofal yn amlweddog, yn gofyn am asesiadau ac adolygiadau niferus gan amryw o weithwyr proffesiynol |
| **Lefel 3**<br><br>**Gofal Cymhleth** | • Mae cyflwr y claf yn gymhleth gyda nifer o anghenion iechyd neu ofal<br>• Gall y claf gael cyfuniad o driniaethau ar gyfer mwy nag un cyflwr iechyd neu ofal, boed yn driniaethau tymor byr neu gynlluniau ar gyfer y tymor hir<br>• Efallai y bydd anhawster o ran rhagweld deilliant ymyriadau a gall anghenion gofal amrywio<br>• Mae monitro manwl yn hanfodol a bydd angen cydweithio amlddisgyblaethol rheolaidd<br>• Efallai y bydd angen adolygiad brys |
| **Lefel 2**<br><br>**Gofal dan Reolaeth** | • Mae'r claf fel arfer yn rhagweladwy ac mae ganddo broblem/cwyn sydd wedi'i diffinio'n glir.<br>Gall fod nifer cyfyngedig o ffactorau ychwanegol sy'n effeithio ar sut y darperir triniaeth, fel rheoli cyflyrau cronig<br>• Mae angen arsylwi arno'n rheolaidd i ganfod unrhyw amrywiadau neu newidiadau yng nghyflwr y claf nas cynlluniwyd<br>• Mae gofal yn cael ei roi ar sail llwybr wedi'i gynllunio i ddarparu triniaethau penodol ar gyfer problemau cyffredin<br>• Gall y gwaith o ddarparu gofal gynnwys sawl gweithgaredd arferol wedi'u cynllunio ar y cyd |
| **Lefel 1**<br><br>**Gofal Arferol** | • Mae anghenion y claf yn rhagweladwy ac yn arferol<br>• Mae angen asesiad sylfaenol a gofal nyrsio syml ar y claf<br>• Mae'r gwaith o gynllunio gofal yn syml ac mae'r claf yn sefydlog; nid oes llawer o amrywiant yn y gofal a ddarperir<br>• Mae'r claf yn cydsynio i'r driniaeth ac yn ymwybodol ohoni<br>• Mae'r amgylchedd yn ddiogel |

Working Document

# Thema Nyrsio DN 1

## Asesu, Arsylwi a Risg

| | |
|---|---|
| **Lefel 5**<br><br>**Gofal Argyfwng / Ar Unwaith** | • Mae argyfwng, sy'n peri risg uniongyrchol i fywyd, yn gofyn am dderbyniad ar unwaith i'r ysbyty neu arsylwadau / ymyriadau dwys os yn aros gartref<br>• Claf anymatebol sy'n mynnu ymyrraeth ar unwaith<br>• Mae'r sefyllfa'n hynod ansefydlog ac anrhagweladwy, gan beri risg sylweddol i gleifion neu eraill; mae angen ymyrraeth arnynt ar unwaith<br>• Risg uniongyrchol o gamdriniaeth, trais neu ymosodedd, sy'n mynnu ymyrraeth ar unwaith<br>• Sgôr NEWS ≥9 sy'n mynnu ymyrraeth ar unwaith |
| **Lefel 4**<br><br>**Gofal Brys** | • Pryderon diogelu sy'n mynnu ymyrraeth frys o ganlyniad i risg sylweddol<br>• Hynod wael, sy'n mynnu gofal brys, asesiad meddygol, monitro manwl ac ymyrraeth nyrsio gynyddol a allai arwain at dderbyn y claf i'r ysbyty<br>• Sgôr NEWS rhwng 6-8; claf yn hynod ansefydlog ac yn anrhagweladwy gyda photensial i ddirywio'n gyflym<br>• Mae'r claf yn hynod gymhleth ac mae angen lefel ddwys o ymyrraeth arno<br>• Cyd-drefnu gofal uwch ar gyfer cleifion newydd, neu yn achos newid sylweddol mewn anghenion, er mwyn galluogi gofal yn y cartref<br>• Claf yn ansefydlog gyda chyflwr sy'n amrywio neu'n dirywio<br>• |
| **Lefel 3**<br><br>**Gofal Cymhleth** | • Arsylwi neu ymyrryd yn aml yn sgil anghenion cymhleth y claf<br>• Monitro ac adolygu'n aml yn sgil anghenion cymhleth y claf<br>• Sgôr NEWS rhwng 3-5; ymyrraeth aml yn sgil cyflwr ansefydlog neu anrhagweladwy'r claf<br>• Efallai y bydd angen cynllunio ar gyfer y tymor hir neu gynllunio gofal cymhleth<br>• Cyfranogiad aml-asiantaeth, Gofal Iechyd Parhaus ac Asesiad Llwybr Carlam<br>• Angen am ymweliadau wedi'u rhannu neu ar y cyd oherwydd lefel y risg a nodwyd<br>• Symptomau anodd eu rheoli, sy'n gofyn am fonitro ac addasiadau cyson |
| **Lefel 2**<br><br>**Gofal dan Reolaeth** | • Monitro ac ymdrin â chlaf sydd fel arfer yn sefydlog ac yn rhagweladwy, a all fod â sawl cyflwr cronig / cydafiachedd<br>• Mae gan y claf alluedd ond mae perygl iddo esgeuluso'i hun. Mae angen ei fonitro a'i annog a chynnal ymyriadau rheolaidd<br>• Gellir rheoli'r gofal drwy ymyriadau wedi'u cynllunio a chymorth parhaus |
| **Lefel 1**<br><br>**Gofal Arferol** | • Asesiadau cyfannol arferol, gan atgyfeirio at asiantaethau eraill os oes angen<br>• Arsylwi ar arwyddion bywyd hanfodol yn rheolaidd yn achos cleifion sefydlog<br>• Mae'r claf yn sefydlog ac mae angen ymyriadau rheolaidd arno wedi'u darparu drwy gynllun gofal cytunedig.<br>• Sgôr NEWS 0-2, mae gan y claf nifer cyfyngedig o anghenion sydd wedi'u diffinio'n glir |

Working Document

# Thema Nyrsio 2

## Cymorth Cymdeithasol ac Amgylchedd

| | |
|---|---|
| **Lefel 5**<br><br>**Gofal Argyfwng / Ar Unwaith** | • Argyfwng sy'n mynnu ymyrraeth ar unwaith i sicrhau bod diogelwch ac anghenion yn cael eu diwallu<br>• Claf yn wynebu perygl sylweddol o esgeulustod neu niwed, neu'n analluog i ofalu amdano'i hun<br>• Angen ymyrraeth ar unwaith neu ofal seibiant brys<br>• Mae ffactorau amgylcheddol yn peri risg sylweddol i'r claf gan ei fod angen ymyrraeth ar unwaith yn sgil diffyg unrhyw gymorth.<br>• Sefyllfa risg uchel o achos ffactorau amgylcheddol neu gymdeithasol |
| **Lefel 4**<br><br>**Gofal Brys** | • Diffyg cymorth cymdeithasol / perthynas wael gydag aelodau o'r teulu sy'n peri risg ddwys i'r claf<br>• Amgylchedd hynod ansefydlog ac anrhagweladwy, sy'n mynnu datrysiad brys<br>• Ymyriadau cynorthwyol yn annigonol ar gyfer anghenion y claf felly mae angen ymyrraeth frys |
| **Lefel 3**<br><br>**Gofal Cymhleth** | • Dynameg deuluol gymhleth sy'n peri bod angen cymorth cymdeithasol i ddarparu gofal cyfannol i'r teulu<br>• Mae gan y claf, sy'n byw ar ei ben ei hun / yn ynysig, anghenion cymdeithasol cymhleth.<br>• Amgylchedd nad yw'n ffafriol i anghenion y claf, felly mae angen cymorth ychwanegol arno |
| **Lefel 2**<br><br>**Gofal dan Reolaeth** | • Cymorth / addysg / hyfforddiant i'r claf a'i deulu / gofalwyr, gan ddarparu arweiniad a chyfeirio'r claf / teulu at wasanaethau a ffynonellau cymorth / gwybodaeth |
| **Lefel 1**<br><br>**Gofal Arferol** | • Claf yn sefydlog ac yn gallu byw'n annibynnol / gyda theulu.<br>• Nid oes materion amgylcheddol neu gymdeithasol wedi'u nodi |

Working Document

# Thema Nyrsio 3

## Gofal Personol, Maeth a Hydradiad

| | |
|---|---|
| **Lefel 5**<br><br>**Gofal Argyfwng / Ar Unwaith** | • Sefyllfa argyfwng sy'n mynnu ymateb / derbyn i'r ysbyty ar unwaith yn achos dadhydradiad neu ddiffyg maeth eithafol<br>• Difrod difrifol i iechyd y croen sy'n mynnu ymyrraeth gritigol<br>• Sefyllfaoedd argyfyngus sy'n mynnu ymyriadau dwys iawn er mwyn i'r claf aros gartref, yn gwbl ddibynnol o ran ei holl weithgarwch byw dyddiol<br>• Hynod gymhleth ac anrhagweladwy, sy'n mynnu gofal nyrsio parhaus |
| **Lefel 4**<br><br>**Gofal Brys** | • Mae angen lefel uchel o gymorth estynedig ar y claf ar gyfer y rhan fwyaf o'i weithgarwch byw bob dydd<br>• Hynod ansefydlog, mae'n ofynnol ei adolygu, arsylwi arno ac asesu'r clwyf/croen yn aml<br>• Mae'n mynnu ymyrraeth frys gan arbenigwyr ac mae'n bosibl i ofal gael ei ddarparu gan asiantaethau eraill<br>• Problemau â'r bledren neu'r coluddyn sy'n mynnu camau brys |
| **Lefel 3**<br><br>**Gofal Cymhleth** | • Gofal clwyfau cymhleth sy'n ei gwneud yn ofynnol i ailasesu a chynnal ymyriadau cyson<br>• Angen cymorth gydag ambell agwedd ar weithgarwch byw bob dydd yn ogystal â phecyn gofal gweithredol. Mae anghenion y claf yn amrywio, sy'n mynnu adolygiad rheolaidd<br>• Perygl o ddadhydradu, mae angen arsylwi'n fanwl ar reolaeth hylif a chydbwysedd hylif<br>• Perygl o ddiffyg maeth, mae angen arsylwi a monitro cymeriant dietegol y claf yn fanwl, gydag ymyrraeth ysbeidiol gan arbenigwr<br>• Anghenion cymhleth o ran gofal y bledren a'r coluddyn, sy'n gofyn am fonitro parhaus ac ymyriadau rheolaidd gan ystod o weithwyr gofal iechyd proffesiynol |
| **Lefel 2**<br><br>**Gofal dan Reolaeth** | • Angen arsylwad wedi'i gynllunio a chymorth ag anghenion hydradiad a maeth<br>• Rhoi gofal cyfnodol o ran ymyrraeth i gleifion sefydlog yng nghyd-destun y bledren a'r coluddyn<br>• Gofal clwyfau wedi'i gynllunio gydag arsylwadau rheolaidd i ddynodi unrhyw amrywiad mewn cyflwr<br>• Claf anghymhleth a allai fod angen rhywfaint o gynhaliaeth a chymorth i ofalu amdano'i hun |
| **Lefel 1**<br><br>**Gofal Arferol** | • Angen cymorth achlysurol gyda rhai gweithgareddau byw bob dydd<br>• Asesu a rheoli clwyf(au) syml fel mater o drefn<br>• Mae'r claf yn annibynnol, yn gallu gofalu amdano'i hun ac yn gallu rheoli ei anghenion maethol ac ysgarthol |

Working Document

# Thema Nyrsio DN 4

## Gwybyddiaeth, Cyfathrebu ac Ymddygiad

| | |
|---|---|
| **Lefel 5**<br><br>**Gofal Argyfwng / Ar Unwaith** | • Mae ymddygiad y claf yn hynod ansefydlog ac yn anrhagweladwy, sy'n mynnu ymyrraeth ar unwaith a chynhaliaeth ddwys.<br>• Mae trais, ymosodedd neu ddryswch yn peri i'r claf / eraill fod mewn perygl o niwed<br>• Risg sylweddol o niwed difrifol i'r claf neu eraill, sy'n mynnu ymyrraeth ar unwaith<br>• Mae'r claf yn dioddef argyfwng, yn methu â chyfathrebu na mynegi ei anghenion yn sgil ei waeledd yn gwaethygu |
| **Lefel 4**<br><br>**Gofal Brys** | • Problemau ymddygiadol / materion iechyd meddwl sy'n mynnu ymyrraeth frys ar sail risg i'r claf neu eraill.<br>• Claf yn methu â mynegi'i anghenion ac yn peri risg iddo'i hun neu i eraill, sy'n mynnu ymyrraeth frys<br>• Diffyg galluedd a dealltwriaeth felly mae angen ymyrraeth frys i gynnal diogelwch |
| **Lefel 3**<br><br>**Gofal Cymhleth** | • Gallu cyfyngedig i gyfathrebu, sy'n ei gwneud yn anodd darogan anghenion y claf<br>• Claf ag anawsterau gwybyddiaeth neu gyfathrebu, sy'n dioddef pryder cynyddol ac sydd angen cymorth emosiynol neu atgyfeiriad arbenigol<br>• Mae hyn yn mynnu Cyfarfod er Lles Pennaf / cais Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (LPS)<br>• Mae gan y claf ddiffyg galluedd neu mae'n anghydsyniol ac felly mae angen cymorth emosiynol / seicolegol arno |
| **Lefel 2**<br><br>**Gofal dan Reolaeth** | • Mae gan y claf alluedd cyfyngedig neu gyfnewidiol. Gofyn hyn am adolygiad a chynhaliaeth barhaus i gynnal diogelwch.<br>• Mae'r claf yn profi peth anhawster o ran mynegi'i hun oherwydd rhwystr iaith, anawsterau cyfathrebu, anawsterau / anabledd dysgu neu alluedd cyfyngedig. Er hyn mae'n gallu cyfleu ei anghenion<br>• Ceir cyfnodau pan nad yw'r claf yn gydsyniol â rhai agweddau ar ofal<br>• Claf yn gydsyniol â thriniaeth ond mae angen cymorth uwch arno oherwydd anawsterau dysgu neu amhariad synhwyrol. |
| **Lefel 1**<br><br>**Gofal Arferol** | • Mae gan y claf alluedd ac mae'n gydsyniol â'r cynllun triniaeth.<br>• Mae'n gallu cyfathrebu a chyfleu ei anghenion. |

Working Document

# Thema Nyrsio DN 5

## Diwedd Oes

| | |
|---|---|
| **Lefel 5**<br><br>**Gofal Argyfwng / Ar Unwaith** | • Argyfwng sy'n mynnu ymyrraeth ar unwaith—gall fod angen derbyniad i'r ysbyty / hosbis neu gynnig lefel ddwys o gynhaliaeth ac ymyrraeth os yn aros gartref<br>• Symptomau terfynol/angheuol sy'n peri risg i'r claf neu eraill; mae angen adolygu ei feddyginiaeth ar unwaith neu ymyrraeth arall |
| **Lefel 4**<br><br>**Gofal Brys** | • Mae'r claf yn hynod ansefydlog ac yn anrhagweladwy; mae angen ei asesu'n aml a'i fonitro'n rheolaidd gydag ymyrraeth ddwys<br>• Angen mewnbwn dwys gan sawl aelod o'r tîm diwedd oes arbenigol<br>• Claf â gwaeledd terfynol yn wynebu oriau olaf ei oes; mae angen sefydlu a chynnig mewnbwn gofal lliniarol wedi'i gynllunio<br>• Mae angen cynhaliaeth emosiynol ddwys ar y claf a'r teulu<br>• Claf gofal lliniarol / diwedd oes yn dirywio'n gyflym, sy'n gofyn am asesiad Gofal Iechyd Parhaus brys |
| **Lefel 3**<br><br>**Gofal Cymhleth** | Cyfathrebu cymhleth a sensitif o ran Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw (ACP) / Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol (DNACPR)<br>• Cymorth ac arweiniad i gleifion neu deuluoedd o ran gofal lliniarol/diwedd oes.<br>• Dyddiau olaf oes sy'n gofyn am ymdriniaeth rheoli symptomau neu gynhaliaeth gyfannol<br>• Anghenion gofal cymhleth, sy'n gofyn am arsylwi'n fanwl ac adolygu'r cynllun gofal yn rheolaidd.<br>• Anghenion cyfnewidiol, sy'n gofyn am lefelau amrywiol o ymyriadau gan y tîm amlddisgyblaethol<br>• Rheoli symptomau cyflyrau cymhleth neu gyflyrau cildroadwy |
| **Lefel 2**<br><br>**Gofal dan Reolaeth** | • Ymweliadau cynhaliol ar gyfer cleifion gofal lliniarol/terfynol sydd newydd gael diagnosis.<br>• Cynhaliaeth ddiwylliannol / seicolegol / ysbrydol i gleifion ar ddiwedd eu hoes.<br>• Cleifion gofal lliniarol sefydlog gyda symptomau dan reolaeth dda. Mae'u hanghenion gofal iechyd yn rhagweladwy gydag ambell amrywiad<br>• Dilysu marwolaeth ddisgwyliedig |
| **Lefel 1**<br><br>**Gofal Arferol** | • Gofal arferol ar gyfer cleifion gofal lliniarol sefydlog<br>• Ymweliad cymorth profedigaeth ar gyfer y teulu |

Working Document